# CYBLD 2016 Cwestiynau ac Atebion
# RHESTR GYFEIRIO GYFLYM

## 1. Pob Ysgol



| | |
|---|---|
| *1.1.* | *Pryd y mae diwrnod y cyfrifiad?* |
| *1.2.* | *Erbyn pryd ddylwn i gyflwyno datganiad CYBLD?* |
| *1.3.* | *I ble ddylwn i anfon fy natganiad CYBLD?* |
| *1.4.* | *Sut mae anfon fy ffeil CYBLD i'r ALl?* |
| *1.5.* | *Sut mae cael mynediad i DEWi?* |
| *1.6.* | *Sut y gallaf wirio'r data?* |
| *1.7.* | *Rwy'n methu dod o hyd i werth 'anhysbys' ar gyfer Cod Ethnig Disgybl, beth ddylwn i ei roi?* |
| *1.8.* | *A ddylid cynnwys disgybl nad yw'n cael ei ariannu gan fy Awdurdod Lleol i yn fy natganiad CYBLD?* |
| *1.9.* | *Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf yn gwybod beth yw cod post cartref y disgybl?* |
| *1.10.* | *Beth ddylwn i ei wneud os nad allaf ganfod cyfenw disgybl?* |
| *1.11.* | *Sut y bydd data CYBLD yn effeithio ar gasglu Canlyniadau'r Asesiad Athro?* |
| *1.11.1.* | *Grŵp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol (fel y'i haddysgir)* |
| *1.11.2.* | *Astudio'r Gymraeg* |
| *1.12.* | *A oes angen i mi ddarparu data ar Gynorthwywyr Addysgu?* |
| *1.13.* | *A ddylwn i gynnwys athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) yn fy natganiad CYBLD?* |
| *1.14.* | *Ble y galla i gael copi o'r canllawiau diweddaraf ar ddata AAA yn CYBLD?* |
| *1.15.* | *Nid yw'r canllawiau AAA yn cynnwys 'Q - Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac Asesiad Statudol' fel gwerth dilys ar gyfer y maes 'Darpariaeth AAA Disgyblion' ond mae fy meddalwedd yn caniatáu i mi ei ddewis o hyd.* |
| *1.16.* | *Pam y mae nifer o eitemau yn dwyn yr enw 'darpariaeth' ar gyfer gwybodaeth am AAA?* |
| *1.17.* | *A ddylai staff cymorth a gyflogir at ddibenion un i un gael eu cynnwys yn CYBLD?* |
| *1.18.* | *A oes angen cofnodi cyfeiriadau e-bost ysgolion eleni?* |
| *1.19.* | *Mae diwrnod y cyfrifiad yn agosáu ac mae disgybl newydd wedi'i dderbyn i'r ysgol. Sut y gallaf osgoi unrhyw broblemau posibl?* |
| *1.20.* | *Sut allaf weld beth yw'r codau ethnigrwydd dilys?* |
| *1.21.* | *A oes angen cofnodi manylion am ddarpariaeth AAA ar gyfer disgyblion sydd wedi eu gwahardd yn barhaol ond sy'n parhau ar gofrestr yr ysgol oherwydd eu bod yn bwriadu apelio yn erbyn y penderfyniad?* |
| *1.22.* | *Sut ddylwn i gofnodi'r data os oedd yr ysgol wedi ei chau'n gyfan gwbl neu am ran o ddiwrnod y cyfrifiad oherwydd tywydd garw?* |
| *1.23.* | *Mae gwall 1840 yn ymddangos pan fyddaf yn cofnodi cod post, ond fe wnes i ei ddefnyddio y llynedd a chafodd ei dderbyn?* |

| | |
|---|---|
| ***1.24.*** | ***Sut wyf i yn cofnodi pwy sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim*** |
| ***1.25.*** | ***Ydy gwaharddiadau yn orfodol eleni?*** |
| ***1.26.*** | ***Beth yw’r codau gwahardd dilys am eleni?*** |
| ***1.27.*** | ***Yng nghyd-destun Astudio Cymraeg (Study Welsh) yn Saesneg, beth ydy FP, LCW a WLD yn golygu?*** |

# 2. Ysgolion Uwchradd

| | |
|---|---|
| ***2.1.*** | ***A oes angen i mi ddarparu data ar Gynorthwywyr Addysgu?*** |
| ***2.2.*** | ***Ar gyfer pa ddisgyblion y mae angen i mi roi gwybodaeth am lythrennedd a rhifedd (sgiliau sylfaenol)?*** |
| ***2.3.*** | ***Sut mae anfon data ar gyfer disgybl o dan 16 ond sy'n cael addysg cwricwlwm ôl-16 / sy'n cael ei addysgu ym mlwyddyn 12 neu'n uwch?*** |
| ***2.4.*** | ***Sut mae anfon data ar gyfer disgybl dros 16 oed ond sy'n cael ei addysgu yng nghyfnod allweddol 4 y cwricwlwm / ym mlwyddyn 11 neu'n is?*** |
| ***2.5.*** | ***GWALL 3520 – Rwyf wedi cofnodi pob athro/athrawes sy'n addysgu'r Gymraeg ond rwy'n dal i gael neges gwall, rhif 3520?*** |
| ***2.6.*** | ***Mae fy meddalwedd MIS yn newid meysydd data'r Dosbarth Cymraeg pan fyddaf yn dewis y Math o Ysgol Cyfrwng Cymraeg.*** |
| ***2.7.*** | ***Mae aelod o staff cymorth yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwy-ydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwy-ydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?*** |
| ***2.8.*** | ***Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?*** |
| ***2.9.*** | ***Pam y mae'n rhaid i mi gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?*** |
| ***2.10.*** | ***A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*** |
| ***2.11.*** | ***Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*** |
| ***2.12.*** | ***Mae fy MIS yn cofnodi awdurdod darparu gofal o XXXX ar gyfer pob disgybl yn awtomatig ond mae'r canllawiau yn nodi mai dim ond ar gyfer y disgyblion sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol yn ystod eu cyfnod ar gofrestr yr ysgol y dylid defnyddio'r cod hwn. Beth ddylwn i ei wneud?*** |
| ***2.13.*** | ***Mae gwall 601 a/neu 11251 yn cael ei nodi ar gyfer dosbarth 14-19 sy'n cael ei ddysgu oddi ar safle'r ysgol heb athro yn perthyn i'r dosbarth. Beth ddylwn i ei wneud?*** |
| ***2.14.*** | ***A fydd fy nata CYBLD yn cael ei ddefnyddio yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan?*** |
| ***2.15*** | ***Bydd Gwall 4570 yn ymddangos os byddaf yn cofnodi'r canlynol fel rhesymau dros adael; Adleoli am resymau milwrol, Disgybl ar goll a Chyrchfan anhysbys – ydy hyn yn wir?*** |
| ***2.16*** | ***Beth yw Rhif Unigryw'r Dysgwr*** |
| ***2.17*** | ***Sut alla i gael Rhifau Unigryw'r Dysgwr ar gyfer fy nisgyblion?*** |
| ***2.18*** | ***Bydd Gwall 1281 yn ymddangos ar gyfer disgyblion ôl-16 sydd ddim yn astudio Cymraeg. Beth ddylwn i ei wneud?*** |

# 3. Ysgolion Cynradd

| | |
|---|---|
| ***3.1.*** | ***Nid oes angen cofnodi disgyblion sy'n gymwys i gael llaeth ysgol am ddim mwyach ond mae fy system yn dal i holi am wybodaeth am laeth ysgol am ddim.*** |
| ***3.2.*** | ***Mae fy meddalwedd MIS yn newid meysydd data'r Dosbarth Cymraeg pan fyddaf yn dewis y Math o Ysgol Cyfrwng Cymraeg.*** |
| ***3.3.*** | ***Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?*** |
| ***3.4.*** | ***Ar ddiwrnod y cyfrifiad bydd aelod o staff yn treulio peth amser mewn un dosbarth yn y bore ac yna amser gyda dosbarth arall yn y prynhawn. Sut y dylwn gofnodi'r aelod hwnnw o staff?*** |
| ***3.5.*** | ***Mae gan fy ysgol dri dosbarth yn y bore sy'n parhau yn y prynhawn fel dau ddosbarth. Sut y dylwn ddisgrifio'r sefyllfa hon yn CYBLD?*** |
| ***3.6.*** | ***Mae gan fy ysgol aelod o staff sy'n 'athro CACHE dan hyfforddiant' nad yw ar yr amserlen i weithio yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad. A ddylwn i gynnwys yr aelod yma o staff yng nghyfrifiad CYBLD?*** |
| ***3.7.*** | ***Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?*** |
| ***3.8.*** | ***Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?*** |
| ***3.9.*** | ***Pam y mae'n rhaid i mi gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?*** |
| ***3.10.*** | ***A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*** |
| ***3.11.*** | ***Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*** |
| ***3.12.*** | ***Nid oes darpariaeth AAA ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Beth ddylid ei gofnodi ar gyfer y camau sy'n cael eu cymryd?*** |
| ***3.13.*** | ***Mae fy MIS yn cofnodi awdurdod darparu gofal o XXXX ar gyfer pob disgybl yn awtomatig ond mae'r canllawiau yn nodi mai dim ond ar gyfer y disgyblion sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol yn ystod eu cyfnod ar gofrestr yr ysgol y dylid defnyddio'r cod hwn. Beth ddylwn i ei wneud?*** |
| ***3.14.*** | **CYBLD a'r Cyfnod Sylfaen.** |
| ***3.15.*** | ***A fydd y data CYBLD ar fy nghyfer i yn cael eu defnyddio yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan?*** |
| ***3.16.*** | ***Mae gwall 12190 yn cael ei nodi ond mae nifer yr athrawon yn gyfartal â neu'n fwy na nifer yr athrawon a nodir mewn dosbarthiadau. Beth ddylwn i ei wneud?*** |

# 4. Ysgolion Arbennig

| | |
|---|---|
| ***4.1.*** | ***A oes angen i ysgolion arbennig anfon datganiad CYBLD?*** |
| ***4.2.*** | ***Mae fy System Gwybodaeth Reoli (MIS) yn dweud wrthyf fod angen i mi gynnwys gwybodaeth am staff cymorth ond nid oes staff cymorth yn yr ysgol.*** |
| ***4.3.*** | ***Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?*** |
| ***4.4.*** | ***Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?*** |
| ***4.5.*** | ***Mae fy MIS yn cofnodi awdurdod darparu gofal o XXX ar gyfer pob disgybl yn awtomatig ond mae'r canllawiau yn nodi mai dim ond ar gyfer y disgyblion sydd wedi bod Mewn gofal yn y gorffennol yn ystod eu cyfnod ar gofrestr yr ysgol y dylid defnyddio'r cod hwn. Beth ddylwn i ei wneud?*** |
| ***4.6.*** | ***CYBLD a'r Cyfnod Sylfaen.*** |

# 5. Ysgolion/Unedau Meithrin

| | |
|---|---|
| ***5.1.*** | ***A oes angen i ysgolion meithrin anfon datganiad CYBLD?*** |
| ***5.2.*** | ***Pryd mae angen cynnwys data CYBLD ar gyfer disgyblion Meithrin mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar?*** |
| ***5.3.*** | ***Pa ddata sydd ei angen ar gyfer disgyblion Meithrin?*** |
| ***5.4.*** | ***Sut y dylwn i gofnodi data ar gyfer disgyblion 3 oed a ariennir gan Grant y Blynyddoedd Cynnar yn fy Meithrinfa?*** |
| ***5.5.*** | ***Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?*** |
| ***5.6.*** | ***Ar ddiwrnod y cyfrifiad bydd aelod o staff yn treulio peth amser mewn un dosbarth yn y bore ac yna amser gyda dosbarth arall yn y prynhawn. Sut y dylid cofnodi'r aelod yma o staff?*** |
| ***5.7.*** | ***Mae gan fy ysgol dri dosbarth yn y bore sy'n parhau yn y prynhawn fel dau ddosbarth. Sut y dylwn ddisgrifio'r sefyllfa hon yn CYBLD?*** |
| ***5.8.*** | ***Mae gan fy ysgol aelod o staff sy'n 'athro CACHE dan hyfforddiant' nad yw ar yr amserlen i weithio yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad. A ddylwn i gynnwys yr aelod yma o staff yng nghyfrifiad CYBLD?*** |
| ***5.9.*** | ***Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?*** |
| ***5.10.*** | ***Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?*** |
| ***5.11.*** | ***Pam y mae'n rhaid i mi gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?*** |
| ***5.12.*** | ***A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*** |
| ***5.13.*** | ***Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*** |
| ***5.14.*** | ***Nid oes darpariaeth AAA ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Beth ddylid ei gofnodi ar gyfer y camau sy'n cael eu cymryd?*** |
| ***5.15.*** | ***CYBLD a'r Cyfnod Sylfaen.*** |
| ***5.16.*** | ***Mae gwall 12190 yn cael ei nodi ond mae nifer yr athrawon yn gyfartal â neu'n fwy na nifer yr athrawon a nodir mewn dosbarthiadau. Beth ddylwn i ei wneud?*** |

# 6. Unedau Cyfeirio Disgyblion

| 6.1. | *A oes angen i Unedau Cyfeirio Disgyblion anfon datganiad CYBLD?* |
|---|---|

# 7. Ysgolion canol

| 7.1 | *Mae fy ysgol yn ysgol canol – sut ddylai llenwi fy natganiad CYBLD ym mis Ionawr?* |
|---|---|

# 8. Ble gallaf gael rhagor o gymorth?

# 1. Pob Ysgol

### *1.1. Pryd y mae diwrnod y cyfrifiad?*

Dyddiad y cyfrifiad eleni yw dydd Mawrth 12 Ionawr 2016.

### *1.2. Erbyn pryd ddylwn i gyflwyno datganiad CYBLD?*

Bydd eich ALl yn pennu'r dyddiad olaf y caniateir i ysgolion gyflwyno ffeiliau datganiadau CYBLD. Mae'n rhaid i chi anfon datganiad eich ysgol atynt erbyn y dyddiad hwn fel y gallant ei wirio, datrys unrhyw ymholiadau ag ysgolion a'i anfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru o fewn yr amserlen sy'n ofynnol.

### *1.3. I ble ddylwn i anfon fy natganiad CYBLD?*

Pan fyddwch wedi cwblhau eich datganiad CYBLD a'i wirio am wallau ac ymholiadau dylech ei anfon i'ch ALl. Byddant yn gwneud rhai gwiriadau ychwanegol, yna'n ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru. Gweler pwynt 1.4 i gael gwybodaeth am sut i anfon eich ffeil CYBLD.

### *1.4. Sut mae anfon fy ffeil CYBLD i'r ALl?*

Dylai ysgolion ddefnyddio'r safle trosglwyddo diogel ar gyfer Cymru, sef DEWi, i gyflwyno eu ffeiliau CYBLD. Dylai pob ysgol fod wedi derbyn canllawiau eisoes ond er mwyn cael rhagor o wybodaeth am DEWi neu i gael canllawiau ar-lein ewch i: [http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy](http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy).

### *1.5. Sut mae cael mynediad i DEWi?*

Mae pob ysgol wedi derbyn enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer DEWi. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair gallwch ei ail-greu drwy glicio ar y ddolen 'Wedi anghofio'r cyfrinair' ar dudalen flaen DEWi. Bydd neges e-bost yn cael ei hanfon yn awtomatig i'r cyfeiriad a nodir yn DEWi ar gyfer yr ysgol. Bydd y neges e-bost yn cynnwys cyfarwyddiadau ynghylch sut i ailosod y cyfrinair. Os nad yw cyfeiriad e-bost eich ysgol wedi'i gofnodi ar DEWi, os ydych wedi anghofio eich enw defnyddiwr neu os ydych yn wynebu anawsterau wrth geisio mewngofnodi i'r safle cysylltwch â'ch ALl i gael cymorth.

### *1.6. Sut y gallaf wirio'r data?*

Unwaith y byddwch chi wedi anfon ffeil i'r ALl a bydd y ffeil honno wedi'i mewnforio'n llwyddiannus i system DEWi, gallwch weld nifer o adroddiadau i gael trosolwg o ddata eich ysgol. Yn eu plith mae: Nifer y Disgyblion fesul Grŵp Oedran, Ethnigrwydd, yr Iaith Gymraeg, bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am ddim, Anghenion Addysgol Arbennig, ac Iaith Gyntaf (ac eithrio Ysgolion Meithrin ar gyfer Iaith Gyntaf). Bydd y rhain yn gymorth mawr i chi i sicrhau bod eich data yn gywir. Gallwch hefyd weld crynodeb llawn yr ysgol drwy DEWi sef yr hyn a fydd wedi'i gynhyrchu gan eich System Gwybodaeth Reoli (MIS).

Gofynnir i chi wirio'r adroddiadau a grëwyd yn DEWi yn ofalus er mwyn cadarnhau nifer y disgyblion a'u hawl i brydau ysgol am ddim **gan fod y ffigurau hyn yn cael effaith fawr ar gyfrifiadau cyllid yn y dyfodol**.

Am ragor o wybodaeth ar sut i weld yr adroddiadau cliciwch ar y ddolen gymorth unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i DEWi. Os ydych yn dod ar draws problemau wrth edrych ar yr adroddiadau yna cysylltwch â'ch ALl.

### *1.7. Rwy'n methu dod o hyd i werth 'anhysbys' ar gyfer Cod Ethnig Disgybl, beth ddylwn i ei roi?*

Nid yw 'Anhysbys' yn opsiwn dilys am yr eitem ar gyfer Cod Ethnig Disgybl. Pan na fydd ysgol wedi cael ateb gan y disgybl neu'r rhiant ar ôl ceisio cael un, neu pan na fu digon o amser i ddod o hyd i'r wybodaeth hon, yna dylid priodoli'r gwerth 'Ni chafwyd yr wybodaeth' (NOBT) i'r disgybl hwnnw. Ceir rhagor o wybodaeth am gasglu a chofnodi data cefndir ethnig disgyblion yn nogfen canllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cylchlythyr 006/2009.

### *1.8. A ddylid cynnwys disgybl nad yw'n cael ei ariannu gan fy Awdurdod Lleol i yn fy natganiad CYBLD?*

Mae adegau pan fydd gan ysgolion ddisgyblion ar eu cofrestr nad ydynt yn cael eu hariannu gan eu Hawdurdod Lleol na Llywodraeth Cymru. Yn yr achosion hyn, a fyddech cystal â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddisgyblion o'r fath sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad CYBLD drwy anfon e-bost i PLASC@cymru.gsi.gov.uk.

### *1.9. Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf yn gwybod beth yw cod post cartref y disgybl?*

Er bod adegau pan na fydd modd dod o hyd i god post disgybl a'i gofnodi'n gywir, dylai hyn fod yn eithriad yn hytrach na'r norm. Ewch i wefan swyddfa'r post i ddod o hyd i'r cod post cywir (www.royalmail.com) os na all y disgybl na'r rhieni ei roi i chi. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylech ddefnyddio cod post yr ysgol yn lle cod post y cartref.

### *1.10. Beth ddylwn i ei wneud os nad allaf ganfod cyfenw disgybl?*

Mewn rhai achlysuron nid yw'n bosib canfod cyfenw disgybl os ydi'r rhieni yn gwrthod datgelu'r wybodaeth hon. O dan yr amgylchiadau hynny dylai tîm cymorth ALI anfon e-bost i Lywodraeth Cymru gyda'r manylion at PLASC@cymru.gsi.gov.uk.

### *1.11. Sut y bydd data CYBLD yn effeithio ar gasglu Canlyniadau'r Asesiad Athro?*

Yn 2015/16 byddwn yn defnyddio peth data o'ch datganiad CYBLD wrth gasglu canlyniadaueich asesiad athro.

#### *1.11.1. Grŵp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol (fel y'i haddysgir)*

Byddwn yn disgwyl cael data asesiad athro yn ystod haf 2016 ar gyfer pob disgybl y mae eu cofnod disgybl CYBLD yn nodi eu bod yn cael eu HADDYSGU yng ngrŵp blwyddyn 2 (CS), 6 neu 9 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rydym hefyd yn disgwyl derbyn data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer holl ddigyblion blynyddoedd CC 2-9.
Gwnewch yn siŵr fod eich gwybodaeth am y Grŵp Blwyddyn CC yn gywir ac wedi'i diweddaru yn CYBLD; bydd hyn yn arbed amser, ymdrech a dryswch yn ddiweddarach.

#### *1.11.2. Astudio'r Gymraeg*

Pan nodir yn CYBLD/cofnod disgybl y System Gwybodaeth Reoli (MIS) fod disgybl yn cael gwersi Cymraeg fel iaith gyntaf neu LCW byddwn yn disgwyl cael asesiad athro ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf neu LCW ym mis Mai.
Pan nodir ar gyfer disgybl unrhyw god dilys arall ar gyfer yr eitem hon o ddata disgybl at ddibenion CYBLD byddwn yn disgwyl cael asesiad athro ar gyfer Saesneg iaith gyntaf ym mis Mai.

### *1.12. A oes angen i mi ddarparu data ar Gynorthwywyr Addysgu?*

Oes, dylai pob ysgol ddarparu gwybodaeth am nifer y cynorthwywyr addysgu (CA) yn yr ysgol os oes yna rai. Os nad oes cynorthwywyr yn yr ysgol, yna nid oes angen unrhyw wybodaeth. Eleni mae'r CALU wedi'u cynnwys mewn categori ar wahân. Mewn achos pan fydd aelod o staff o dan gontract i weithio fel CALU a CA ar wahanol adegau o'r wythnos, dylid eu cofnodi yn y categori ar gyfer CALU. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori CALU dim ond os ydynt wedi cael statws CALU yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel CALU am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

### *1.13. A ddylwn i gynnwys athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) yn fy natganiad CYBLD?*

Dylech. Dylid cynnwys pob athro yn yr ysgol ar y datganiad CYBLD, gan gynnwys y rheini sy'n cyflenwi mewn mwy nag un dosbarth. O ganlyniad, mewn ysgolion cynradd, bydd nifer yr athrawon mewn dosbarth yn wahanol i gyfanswm yr athrawon cyfwerth ag amser llawn. Ni fydd y prosesau dilysu yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn achosi gwall os yw nifer yr athrawon hyd at ddau yn fwy na nifer y dosbarthiadau.

### *1.14. Ble gallaf gael copi o'r canllawiau diweddaraf ar ddata AAA yn CYBLD?*

Cyhoeddwyd canllawiau manwl ar eitemau data AAA a dewis y gwerthoedd priodol ar gyfer ALlau ac ysgolion yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 012/2013 'Canllawiau ar gyfer Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion: Canllawiau i gynorthwyo â chofnodi Anghenion Addysgol Arbennig Disgyblion ar Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion'.

Mae codau mathau AAA disgyblion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| DYSL | SPLD - Dyslecsia |
| DYSC | SPLD - Dyscalculia |
| DYSP | SPLD - Dyspracsia |
| ADHD | SPLD - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| | |
| MLD | Anawsterau dysgu cymedrol |
| GLD | Anawsterau dysgu cyffredinol |
| SLD | Anawsterau dysgu difrifol |
| PMLD | Anawsterau dysgu dwys a lluosog |
| BESD | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol |
| SLCD | Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu |
| HI | Nam ar y clyw |
| VI | Nam ar y golwg |
| MSI | Nam aml synhwyraidd |
| PMED | Anawsterau corfforol a meddygol |
| ASD | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| DNA | Amherthnasol |

### *1.15. Nid yw'r canllawiau AAA diweddaraf yn cynnwys 'Q - Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac Asesiad Statudol' fel gwerth dilys ar gyfer y maes 'Darpariaeth AAA Disgyblion' ond mae fy meddalwedd yn caniatáu i mi ei ddewis o hyd.*

Mae'r rhan fwyaf o feddalwedd MIS yn dal i gynnwys y gwerth hwn at ddefnydd lleol o fewn ysgolion. Wrth greu CYBLD dylai hyn gael ei newid yn awtomatig i 'P – Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy'. Ni ddylai gwallau gael eu cofnodi.

### *1.16. Pam y mae nifer o eitemau yn dwyn yr enw 'darpariaeth' ar gyfer gwybodaeth am AAA?*

Darpariaeth AAA yw'r enw maes a roddwyd ar y mathau o Ddarpariaeth o dan God Ymarfer AAA, sef y Cam AAA neu Statws AAA a gâi ei ddefnyddio cynt. Mae pedair eitem AAA pellach er mwyn cael manylion am y **cymorth a ddarperir**. Dyma'r eitemau: Y Cwricwlwm a Dulliau Addysgu, Grwpiau a Chymorth, Adnoddau Arbenigol, a Chyngor ac Asesu.

### *1.17. A ddylai staff cymorth a gyflogir at ddibenion un i un gael eu cynnwys yn y CYBLD?*

**Ni ddylai** staff cymorth sydd mewn dosbarth yn benodol er mwyn gwneud gwaith un ac un gael eu cynnwys wrth gyfrif nifer y staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer pob dosbarth at ddibenion CYBLD. **Dylid**, fodd bynnag, eu cyfrif yn yr adran ar y ffurflen CYBLD ar wybodaeth staffio o dan staff cymorth.

### *1.18. A oes angen cofnodi cyfeiriadau e-bost ysgolion eleni?*

Oes. Mae angen nodi cyfeiriad e-bost ar y datganiad CYBLD. Os nad oes gan yr ysgol gyfeiriad e-bost yna nodwch 'N@A' er mwyn i DEWi dderbyn y ffeil. Serch hynny, nodwch y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyfeiriadau e-bost a gyflwynir er mwyn cysylltu ag ysgolion.

### *1.19. Mae diwrnod y cyfrifiad yn agosáu ac mae disgybl newydd wedi'i dderbyn i'r ysgol. Sut y gallaf osgoi unrhyw broblemau posibl?*

Mae angen i ysgolion sy'n derbyn disgybl newydd gadarnhau bod ei gyn ysgol yn ymwybodol bod y disgybl wedi gadael ac wedi terfynu ei gofrestriad â hi. Dylai'r ysgol sy'n derbyn y disgybl geisio derbyn Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y disgybl cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu data a mewnbynnu anghenion ar gyfer cofnod y disgybl. Mae angen cwblhau cofnod y disgybl cyn llenwi'r datganiad CYBLD. Mae canllawiau ar y System Drosglwyddo Gyffredin ar gael yng nghylchlythyr 18/2006 a thrwy'r ddolen 'Dogfennaeth s2s' ar y Porth Ysgolion (http://schoolportalwales.org.uk/home.aspx).

### *1.20. Sut allaf weld beth yw'r codau ethnigrwydd dilys?*

I gael rhagor o wybodaeth ar gasglu a chofnodi data am gefndir ethnig disgyblion, gweler nodiadau cwblhau CYBLD [http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?skip=1&lang=cy](http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?skip=1&lang=cy) a dogfen canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, cylchlythyr 006/2009.

### *1.21. A oes angen cofnodi manylion am ddarpariaeth AAA ar gyfer disgyblion sydd wedi eu gwahardd yn barhaol ond sy'n parhau ar gofrestr yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad oherwydd eu bod yn bwriadu apelio yn erbyn y penderfyniad?*

Yn achos y disgyblion hynny sydd ag AAA ac sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol ond sy'n bwriadu apelio yn erbyn y penderfyniad, dylai'r ysgol gofnodi data AAA y disgyblion gan gynnwys lefel y ddarpariaeth a roddir iddynt, er gwaetha'r ffaith a ydynt yn derbyn cymorth AAA neu beidio. Gan nad yw'r broses apelio wedi dod i ben eto, y mae'n parhau yn briodol i gofnodi pa gymorth a dderbyniodd y disgybl cyn ei gwahardd a pha gymorth y bydd yn ei dderbyn pe bai'r apêl yn llwyddo.

### *1.22. Mae Gwall 1840 yn ymddangos pan fyddaf yn nodi'r cod post ond defnyddiais hwn yn y gorffennol a chafodd ei dderbyn*

Cafodd y broses o wirio cod post ei wneud yn fwy llym yn 2012 ar gyfer anfon ffeiliau CYBLD i'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu i greu rhif unigryw'r dysgwr. Mae'r newid yn cynnwys; ar gyfer ail ran y cod post wedi'r bwlch (XXXX **XXX**), ni fydd y nodau CIKMOV yn cael eu derbyn bellach.

### *1.23. Sut wyf i yn cofnodi pwy sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim*

Caiff disgybl brydau ysgol am ddim pan fydd y rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r meini prawf a phan fydd y rhiant neu'r disgybl wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim neu pan fydd rhywun wedi gwneud cais ar eu rhan. (Fel arfer, perthynas neu ffrind neu rywun sy'n gweithio gyda'r teulu, er enghraifft cynrychiolydd o'r ganolfan Cyngor ar Bopeth, yw'r person sy'n gweithredu ar ran y rhiant neu'r disgybl er mwyn eu helpu i gael yr holl fuddiannau y gallent fod â hawl iddyn nhw).

Nid oes modd caniatáu prydau ysgol am ddim heb fod cais am hynny wedi dod i law gan y rhiant neu'r disgybl neu gan rywun sy'n gweithio ar eu rhan. Caiff awdurdod lleol gysylltu â rhiant/gofalwr i ofyn iddyn nhw a hoffent wneud cais am brydau ysgol am ddim i'w plentyn/plant.

### *1.25 Ydy gwaharddiadau yn orfodol eleni?*

Mae gwaharddiadau dros dro penodol a parhaol yn orfodol ar gyfer 2015/16.

### *1.26 Beth yw'r codau gwahardd dilys am eleni?*

Dangosir y codau gwahardd dilys yn y tabl isod

**Codau rheswm am y waharddiad**

| | |
|---|---|
| PP | Ymosodiad corfforol ar ddisgybl |
| PA | Ymosodiad corfforol ar oedolyn |
| VP | Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn disgybl |
| VA | Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn |
| BU | Bwlio |
| RA | Cam-drin hiliol |
| SM | Camymddygiad rhywiol |
| DA | Cyffuriau ac alcohol |
| DM | Difrod |
| TH | Dwyn |
| DB | Ymddygiad aflonyddgar parhaus |
| OT | Arall |

**Codau categori y gwaharddiad**

| | |
|---|---|
| FIXD | Dros dro amser penodol |
| PERM | Parhaol |

Am unrhyw gwestiynau am waharddiadau, gwelwch y cyfarwyddiadau ar wefan AdAS: http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/exclusionguidance/?skip=1&lang=cy.

### *1.27 Yng nghyd-destun Astudio Cymraeg (Study Welsh) yn Saesneg, beth ydy FP, LCW a WLD yn golygu?*

Mae FP yn golygu'r Cyfnod Sylfaen (Foundation Phase); LCW yw Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Language, Literacy and Communication Skills (in Welsh)) a WLD yw Datblygu'r Gymraeg (Welsh Language Development).

# 2. Ysgolion Uwchradd

***2.1 A oes angen i mi ddarparu data ar Gynorthwywyr Addysgu?***

Oes. Mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd ddarparu gwybodaeth am nifer y cynorthwywyr addysgu.

***2.2 Ar gyfer pa ddisgyblion y mae angen i mi roi gwybodaeth am Lythrennedd a Rhifedd (sgiliau sylfaenol)?***

Nid oes angen data sgiliau sylfaenol ar gyfer CYBLD 2016.

***2.3 Sut mae anfon data ar gyfer disgybl o dan 16 ond sy'n cael addysg cwricwlwm ôl-16 /sy’n cael ei addysgu ym mlwyddyn 12 neu'n uwch?***

Ariennir y disgyblion hyn drwy’r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol.
Dylid anfon gwybodaeth am ddisgyblion o'r fath drwy'r casgliad yn Hydref 2016.

***2.4 Sut mae anfon data ar gyfer disgybl dros 16 oed ond sy'n cael ei addysgu yng nghyfnod allweddol 4 y cwricwlwm/ym mlwyddyn 11 neu'n is?***

Ariennir y disgyblion hyn drwy Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol. Mae’r grant hwn yn ystyried disgyblion **tros 16 oed ond sy'n cael addysg cwricwlwm cyfnod allweddol 4/sy’n cael ei addysgu ym mlwyddyn 11 neu'n is**, pan fo gwybodaeth amdanynt yn y CYBLD.

### *2.5 GWALL 3520 - Rwyf wedi cofnodi pob athro sy'n addysgu’r Gymraeg ond rwy'n dal i gael neges gwall, rhif 3520?*

Gwnewch yn siŵr fod y cod Addysgu’r Gymraeg wedi'i roi ar gyfer pob athro a phennaeth sy'n addysgu, yna ni ddylai'r gwall ymddangos.

Dylid rhoi categori Addysgu’r Gymraeg ar gyfer POB athro (hynny yw pob athro sy'n Bennaeth, yn Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Dros Dro, yn Bennaeth Cynorthwyol neu’n athro cymwysedig o ran eu statws athro) ar wahân i bennaeth nad yw'n addysgu. Ar gyfer pob athro nad yw neu na all addysgu’r Gymraeg mae angen rhoi’r cod priodol sef naill ai 'NW = Athrawon cymwysedig sy'n gallu addysgu’r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad ydynt yn gwneud hynny', neu 'NT = ddim yn addysgu’r Gymraeg neu'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg'.

Felly rhaid i gyfanswm nifer yr athrawon sydd â chategori addysgu’r Gymraeg naill ai:
- fod yn gyfartal i gyfanswm nifer yr athrawon sydd yn addysgu yn y dosbarth (pob un sy’n Bennaeth, yn Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Dros Dro, yn Bennaeth Cynorthwyol neu’n athro cymwysedig)

neu:
- fod yn gyfartal i gyfanswm nifer yr athrawon ac eithrio'r Pennaeth os nad ydynt yn addysgu yn y dosbarth (pob un sy'n Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Dros Dro, yn Bennaeth Cynorthwyol neu’n athro cymwysedig).

### *2.6 Mae fy meddalwedd MIS yn newid meysydd data’r Dosbarth Cymraeg pan fyddaf yn dewis y Math Ysgol Cyfrwng Cymraeg.*

Rydym yn gwybod bod rhai mathau o feddalwedd MIS yn newid y categorïau o ‘Ddosbarth Cymraeg’ sydd wedi’u cofnodi ar gyfer dosbarthiadau pan fydd y Math o Ysgol Cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddewis ar gyfer yr ysgol. Dewiswch y math cywir o Ysgol Cyfrwng Cymraeg *cyn* y gwneir unrhyw olygu ar ddata ynghylch dosbarthiadau er mwyn sicrhau na fydd dethol categori arall o ysgol yn disodli unrhyw ddata am ddosbarthiadau Cymraeg sydd eisoes wedi cael ei fewnbynnu. Bydd angen gwneud yn siŵr bod y gwerthoedd ar gyfer dosbarth Cymraeg yn cael eu nodi’n gywir a’u newid os bydd angen cyn eu lanlwytho i DEWi.

### *2.7 Mae aelod o staff cymorth yr ysgol dan gontract i weithio rhan o’r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a’r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?*

Yn yr achos hwn dylai’r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori’r cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori CALU dim ond os ydynt wedi cael statws CALU yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau’n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu’r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel CALU am ran o’r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

### *2.8 Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?*

Cafodd eitem data ar gamau dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer CYBLD 2009. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn nodiadau cwblhau CYBLD yn http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy.

### *2.9 Pam ddylwn i gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?*

Bydd y data yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgolion wrth iddynt asesu cyrhaeddiad a datblygiad cynyddol disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt fel rhan o'u proses hunanasesu ac at ddibenion cymharu. Bydd y data hefyd yn creu llinell sylfaen ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALlau) a Llywodraeth Cymru fel y gallant lunio dadansoddiadau ac adroddiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fonitro hynt y grŵp hwn o ddysgwyr. Bydd y data hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at fesur effaith Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru.

### *2.10 A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*

Na. Noder **nad** bwriad yr eitem data hon yw nodi lefelau rhuglder Saesneg i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond yn hytrach i nodi hyfedredd iaith Saesneg i ddysgwyr ieithoedd ychwanegol nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

### *2.11 Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*

Caiff manylion ynghylch camau disgyblion o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu harolygu'n flynyddol gan Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arbenigol neu gan wasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol o fewn ALlau. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

***2.12 Mae fy MIS yn cofnodi awdurdod darparu gofal o XXXX ar gyfer pob disgybl yn awtomatig ond mae'r canllawiau yn nodi mai dim ond ar gyfer y disgyblion sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol yn ystod eu cyfnod ar gofrestr yr ysgol y dylid defnyddio'r cod hwn. Beth ddylwn i ei wneud?***

Gallwch anwybyddu hwn ar a chyflwynwch y datganiad yn ôl yr arfer.

***2.13 Mae Gwall 601 a/neu 11251 yn cael ei nodi ar gyfer dosbarth 14-19 sy'n cael ei ddysgu oddi ar safle'r ysgol heb athro yn perthyn i'r dosbarth. Beth ddylwn i ei wneud?***

Parhewch â'ch datganiad. Dylai tîm cymorth eich awdurdod lleol nodi'r manylion yn y blwch sylwadau wrth y gwall yn DEWi.

***2.14 A fydd fy nata CYBLD yn cael ei ddefnyddio yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan?***

Bydd. Mae CYBLD yn darparu llawer o'r data cyd-destunol a ddefnyddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Rhennir y setiau data ag ysgolion ac ALlau i gefnogi hunan-werthuso ysgolion a hybu heriau a helpu i bennu a rhannu arfer da. Mae Estyn hefyd yn defnyddio'r setiau data fel rhan o'u deunydd arolygu. Mae'n bwysig bod data CYBLD yn cael ei nodi'n fanwl gywir gan ysgolion er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac addas i'r ysgol ac ALl. **Yr elfennau pwysicaf yw'r meysydd yn ymwneud â chymhwysedd pob disgybl i gael prydau ysgol am ddim, cod post y disgybl, cam o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig a chyfrwng addysgu'r ysgol – mae'r rhain i gyd yn cael eu defnyddio i bennu'r teuluoedd o ysgolion sy'n tanategu'r pecynnau hyn.**

***2.15 Bydd Gwall 4570 yn ymddangos os byddaf yn cofnodi'r canlynol fel rhesymau dros adael; Adleoli am resymau milwrol, Disgybl ar goll a Chyrchfan anhysbys – ydy hyn yn wir?***

Nac ydy. Nid yw hi bellach yn ofynnol i gofnodi gwybodaeth am ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn CYBLD mis Ionawr.

***2.16 Beth yw Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN)?***

Rhif unigryw 10 digid ydi'r ULN sy'n cael ei neilltuo i ddysgwyr dros 14 mlwydd oed. Mae'r rhif hwn yn galluogi dysgwr ddatblygu cofnod gydol-oes o'u cymwysterau a'u llwyddiannau ym maes addysg.

***2.17 Sut allaf i dderbyn Rhif Unigryw'r Dysgwr ar gyfer fy nisgyblion?***

Ni all dysgwr gael ULN ar eu cyfer eu hunain. Gellir cael ULN trwy'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu yn unig: https://www.gov.uk/government/collections/learning-records-service

Yn gyntaf, bydd yn rhaid i bob ysgol yng Nghymru sydd am gael Rhif Unigryw'r Dysgwr ar gyfer eu disgyblion a'u myfyrwyr :

- Sicrhau bod manylion yr ysgol wedi'u diweddaru ar y Cofrestr Darparwyr ar http://www.ukrlp.co.uk/ a nodi Cyfeirnod Darparwr y DU
- Gorfrestru gyda'r Gwansanaeth Cofnodion Dusgu fel Corff Cofrestru Dysgwyr
- Rhoi Hysbysiad Preifatrwydd diwygiedig (Prosesu Teg gynt) (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan AdAS) a chofnodi dewis unrhyw unigolyn i 'eithrio allan' o rannu data

***2.18 Bydd Gwall 1281 yn ymddangos ar gyfer disgyblion ôl-16 sydd ddim yn astudio Cymraeg. Beth ddylwn i ei wneud?***

Rydym wedi dileu codau 3 (dysgu Cymraeg arall) a 4 (ddim yn dysgu Cymraeg o gwbl) o'r opsiynau astudio Cymraeg. Mae hyn yn golygu dylai'r disgyblion sydd wedi cael cod 3 neu 4 wedi'u llenwi ar eu cyfer cael eu disodli gan naill god 1 (dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf), 2 (dysgu Cymraeg fel ail iaith) neu 5 (wedi'i ddatgymhwyso)

Am y mwyafrif o ddisgyblion sydd ddim yn ôl-16, bydd codau 1,2 neu 5 yn gymwys. Er hynny, nad yw'n wir am ddisgyblion ôl-16 sydd ddim yn astudio Cymraeg ac sydd ddim wedi'u gorfodi yn stadudol i'w ddysgu. **Cofnodwch y disgyblion yma fel 5.**

# 3 Ysgolion Cynradd

***3.1. Nid oes angen cofnodi disgyblion sy'n gymwys i gael llaeth ysgol am ddim mwyach ond mae fy system yn dal i holi am wybodaeth am laeth ysgol am ddim.***

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn mwyach am wybodaeth mewn perthynas â phob disgybl o ran a ydynt yn gymwys i gael llaeth ysgol am ddim neu beidio ond mae'n ofynnol i ysgolion roi gwybodaeth o hyd am gyfanswm y llaeth ysgol am ddim a gymerir ar ddiwrnod y cyfrifiad.

***3.2. Mae fy meddalwedd MIS yn newid meysydd data'r Dosbarth Cymraeg pan fyddaf yn dewis y Math Ysgol Cyfrwng Cymraeg.***

Rydym yn gwybod bod rhai mathau o feddalwedd MIS yn newid y categorïau o 'Ddosbarth Cymraeg' sydd wedi'u cofnodi ar gyfer dosbarthiadau pan fydd y Math o Ysgol Cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddewis ar gyfer yr ysgol. Dewiswch y math cywir o Ysgol Cyfrwng Cymraeg *cyn* y gwneir unrhyw olygu ar ddata ynghylch dosbarthiadau er mwyn sicrhau na fydd dethol categori arall o ysgol yn disodli unrhyw ddata am ddosbarthiadau Cymraeg sydd eisoes wedi cael ei fewnbynnu. Bydd angen gwneud yn siŵr bod y gwerthoedd ar gyfer dosbarth Cymraeg yn cael eu nodi'n gywir a'u newid os bydd angen cyn eu lanlwytho i DEWi.

***3.3. Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?***

Os nad yw'r wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad yn wythnos ysgol lawn neu arferol dylai'r data gael ei gymryd o'r wythnos lawn arferol sydd agosaf at ddiwrnod y cyfrifiad.

I gael rhagor o wybodaeth am ddata ynghylch Brecwast am Ddim yn CYBLD gweler y canllawiau yn http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/?lang=cy.

***3.4. Ar ddiwrnod y cyfrifiad bydd aelod o staff yn treulio peth amser mewn un dosbarth yn y bore ac yna amser gyda dosbarth arall yn y prynhawn. Sut y dylwn gofnodi'r aelod hwnnw o staff?***

Pan fydd athro/athrawes neu aelod o staff cymorth yn gweithio gydag un dosbarth yn y bore a chyda dosbarth arall yn y prynhawn bydd angen eu cofnodi yn y ddau ddosbarth yn CYBLD, hyd yn oed os bydd dosbarth y bore yn parhau fel dosbarth y prynhawn, neu os oedd dosbarth y prynhawn y symudodd yr aelod o staff iddo hefyd yn ddosbarth y bore.

***3.5. Mae gan fy ysgol dri dosbarth yn y bore sy'n parhau yn y prynhawn fel dau ddosbarth. Sut y dylwn dqdisgrifio'r sefyllfa hon yn CYBLD?***

Y tri dosbarth a gynhaliwyd yn y bore yw'r rhai y mae angen eu cofnodi, hyd yn oed os yw rhai o'r disgyblion o un o ddosbarthiadau'r bore yn rhan-amser, cyn belled â bod tri o athrawon cymwys rhwng dosbarthiadau'r bore.

***3.6. Mae gan fy ysgol aelod o staff sy'n 'athro CACHE dan hyfforddiant' nad yw ar yr amserlen i weithio yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad. A ddylwn i gynnwys yr aelod yma o staff yng nghyfrifiad CYBLD?***

Na ddylech. Ni ddylid cyfrif yr aelod yma o staff yng nghyfrif CYBLD o athrawon CACHE dan hyfforddiant. Ni ddylid ond cyfrif yr athrawon CACHE hynny dan hyfforddiant sy'n gweithio ar ddiwrnod y cyfrifiad yn natganiad CYBLD er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith.

***3.7. Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?***

Yn yr achos hwn dylai'r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori CALU dim ond os ydynt wedi cael statws CALU yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel CALU am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

***3.8. Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?***

Cafodd eitem data ar gamau dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer CYBLD 2009. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn nodiadau cwblhau CYBLD yn http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy.

***3.9. Pam ddylwn i gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?***

Bydd y data yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgolion wrth iddynt asesu cyrhaeddiad a datblygiad cynyddol disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt fel rhan o'u proses hunanasesu ac at ddibenion cymharu. Bydd y data hefyd yn creu llinell sylfaen ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALlau) a Llywodraeth Cymru fel y gallant lunio dadansoddiadau ac adroddiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fonitro hynt y grŵp hwn o ddysgwyr. Bydd y data hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at fesur effaith Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru.

**_3.10. A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol?_**

Na. Noder **nad** bwriad yr eitem data hon yw nodi lefelau rhugldер Saesneg i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond yn hytrach i nodi hyfedredd iaith Saesneg i ddysgwyr ieithoedd ychwanegol nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

**_3.11. Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol?_**

Caiff manylion ynghylch camau disgyblion o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu harolygu'n flynyddol gan Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arbenigol neu gan wasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol o fewn ALlau. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

**_3.12. Nid oes darpariaeth AAA ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Beth ddylid ei gofnodi ar gyfer y camau sy'n cael eu cymryd?_**

Dylai disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gael eu hystyried fel disgyblion y Blynyddoedd Cynnar at ddiben yr AAA. Y categorïau dilys ar gyfer darpariaeth AAA yw:

S Datganiad
A Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar
P Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy
N Dim Anghenion Addysgol Arbennig.

**_3.13. Mae fy MIS yn cofnodi awdurdod darparu gofal o XXXX ar gyfer pob disgybl yn awtomatig ond mae'r canllawiau yn nodi mai dim ond ar gyfer y disgyblion sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol yn ystod eu cyfnod ar gofrestr yr ysgol y dylid defnyddio'r cod hwn. Beth ddylwn i ei wneud?_**

Gallwch anwybyddu hwn a chyflwynwch y ffurflen yn ôl yr arfer.

### *3.14. CYBLD a’r Cyfnod Sylfaen.*

Defnyddir data o CYBLD i amcangyfrif y gost genedlaethol o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cyfrifir dyraniadau i ALIau ar wahân trwy ddefnyddio’r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer ysgolion cynradd, fel y cytunwyd gyda ADEW a’r WLGA.

Defnyddir yr eitemau data canlynol yn y cyfrifiadau. Ar lefel dosbarth unigol mae pob eitem o ddata. Ceir manylion pellach yn adran 6 o’r nodiadau cyfarwyddyd CYBLD.

**Math o ddosbarth, Grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol**
Defnyddir cyfuniad y tair eitem yma i benderfynu'r gymhareb briodol ar gyfer y dosbarth.

**Nifer y disgyblion**
Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y disgyblion unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol, a hefyd disgyblion yn absennol ar ddydd y cyfrifiad ond yn arferol yn y dosbarth. Defnyddir nifer y disgyblion yn y dosbarth i benderfynu nifer y staff sydd angen yn y dosbarth i gyrraedd y gymhareb briodol.

**Athrawon a staff cymorth**
Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y staff unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys pob staff dim ots sut y cyllidwyd e.e. LMS, grant Cyfnod Sylfaen neu unrhyw ffynhonnell arall. Fe ddylech eithrio staff sy'n darparu cymorth addysg arbennig un i un llawn-amser neu staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn fel rhan o gynllun RAISE.

**Fe ddylech gofnodi staff ym mhob dosbarth y maent yn dysgu neu yn cymorth ar ddiwrnod y Cyfrifiad e.e. ar gyfer dosbarthiadau meithrin gwahanol fore a phrynhawn gyda'r un aelodau staff, fe ddylech gofnodi'r staff yma dwywaith.** Oherwydd hyn, bydd Ymholiad 12189 yn cael ei adrodd yn hytrach na gwall.

### *3.15. A fydd y data CYBLD ar fy nghyfer i yn cael eu defnyddio yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan?*

Bydd. Mae CYBLD yn darparu llawer o’r data cyd-destunol a ddefnyddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Rhennir y setiau data ag ysgolion ac ALIau i gefnogi hunan-werthuso ysgolion a hybu heriau a helpu i bennu a rhannu arfer da. Mae Estyn hefyd yn defnyddio’r setiau data fel rhan o’u deunydd arolygu. Mae’n bwysig bod data CYBLD yn cael ei nodi’n fanwl gywir gan ysgolion er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac addas i’r ysgol ac ALl. **Yr elfennau pwysicaf yw’r meysydd yn ymwneud â chymhwysedd pob disgybl i gael prydau ysgol am ddim, cod post y disgybl, cam o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig a maint a chyfrwng addysgu’r ysgol – mae’r rhain i gyd yn cael eu defnyddio i bennu’r teuluoedd o ysgolion sy’n tanategu’r pecynnau hyn.**

***3.16. Mae Gwall 12190 yn cael ei nodi ond mae nifer yr athrawon yn uwch neu'n gyfwerth â nifer yr athrawon mewn dosbarthiadau. Beth ddylwn i ei wneud?***

Rheol 12190, efallai y bydd cymharu nifer yr athrawon â'r dosbarthiadau a nodir yn achosi gwall ym meddalwedd MIS yr ysgol gan nad yw'r rheol yn cyfri'r categorïau newydd i athrawon sef AC (Pennaeth Dros Dro) ac AS (Penaethiaid Cynorthwyol), gan roi nifer anghywir o athrawon yn y neges gwall. Gall ysgolion anwybyddu'r maes hwn a lanlwytho'r ffeil i DEWi – ni fydd gwall 12190 ar DEWi.

# 4 Ysgolion Arbennig

***4.1. A oes angen i ysgolion arbennig anfon datganiad CYBLD?***

Oes, mae disgwyl i bob ysgol arbennig anfon datganiad CYBLD. Nid yw ond yn ofynnol i ysgolion arbennig, â darpariaeth ôl-16 a hebddi, gwblhau gwybodaeth safonol CYBLD. **Nid oes bellach angen** gwybodaeth am ôl-16 oddi wrth ysgolion arbennig.

***4.2. Mae fy System Gwybodaeth Reoli (MIS) yn dweud wrthyf fod angen i mi gynnwys gwybodaeth am staff cymorth ond nid oes staff cymorth yn yr ysgol.***

Mae hon bellach yn eitem ddewisol ar gyfer Ysgolion Arbennig, er y dylid ei chynnwys os oes staff cymorth yn yr ysgol. Os nad oes staff cymorth yn yr ysgol yna anwybyddwch wall 840 a lanlwytho'r ffeil fel sy'n arferol yn DEWi.

***4.3. Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?***

Os nad yw'r wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad yn wythnos ysgol lawn neu arferol dylai'r data gael ei gymryd o'r wythnos lawn arferol sydd agosaf at ddiwrnod y cyfrifiad.
I gael rhagor o wybodaeth am ddata ynghylch Brecwast am Ddim yn CYBLD gweler y canllawiau yn
http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/?lang=cy.

***4.4. Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?***

Yn yr achos hwn dylai'r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori CALU dim ond os ydynt wedi cael statws CALU yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel CALU am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

### *4.5. Mae fy MIS yn cofnodi awdurdod darparu gofal o XXXX ar gyfer pob disgybl yn awtomatig ond mae’r canllawiau yn nodi mai dim ond ar gyfer y disgyblion sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol yn ystod eu cyfnod ar gofrestr yr ysgol y dylid defnyddio’r cod hwn. Beth ddylwn i ei wneud?*

Gallwch anwybyddu hwn a chyflwynwch y ffurflen yn ôl yr arfer.

### *4.6. CYBLD a’r Cyfnod Sylfaen.*

Defnyddir data o CYBLD i amcangyfrif y gost genedlaethol o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cyfrifir dyraniadau i ALlau ar wahân trwy ddefnyddio’r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer ysgolion cynradd, fel cytunwyd gyda ADEW a’r WLGA.

Defnyddir yr eitemau data canlynol yn y cyfrifiadau. Ar lefel dosbarth unigol mae pob eitem o ddata. Ceir manylion pellach yn adran 6 o’r nodiadau cyfarwyddyd CYBLD.

**Math o ddosbarth, Grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol**
Defnyddir cyfuniad y tair eitem yma i benderfynu'r gymhareb briodol ar gyfer y dosbarth.
**Nifer y disgyblion**
Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y disgyblion unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol, a hefyd disgyblion yn absennol ar ddydd y cyfrifiad ond yn arferol yn y dosbarth. Defnyddir nifer y disgyblion yn y dosbarth i benderfynu nifer y staff sydd angen yn y dosbarth i gyrraedd y gymhareb briodol.
**Athrawon a staff cymorth**
Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y staff unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys pob staff dim ots sut y cyllidwyd e.e. LMS, grant Cyfnod Sylfaen neu unrhyw ffynhonnell arall. Fe ddylech eithrio staff sy'n darparu cymorth addysg arbennig un i un llawn-amser neu staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn fel rhan o gynllun RAISE.

**Fe ddylech gofnodi staff ym mhob dosbarth y maent yn dysgu neu yn cymorth ar ddiwrnod y Cyfrifiad e.e. ar gyfer dosbarthiadau meithrin gwahanol fore a phrynhawn gyda'r un aelodau staff, fe ddylech gofnodi'r staff yma dwywaith.** Oherwydd hyn, gellid anwybyddu gwallau 616 a 895 os y’u hachosir gan y cofnodi dwbl hyn.

# 5 Ysgolion/Unedau Meithrin

### *5.1. A oes angen i ysgolion meithrin anfon datganiad CYBLD?*

Oes, mae angen i ysgolion meithrin a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol gwblhau ac anfon datganiad CYBLD. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd sydd ag unedau meithrin gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'u disgyblion meithrin yn eu datganiad CYBLD.

### *5.2. Pryd mae angen cynnwys data CYBLD ar gyfer disgyblion Meithrin mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar?*

Os yw'r ddarpariaeth addysg a gyllidir yn cael ei gweithredu gan gwmni neu unigolyn preifat yna mae'n ddarpariaeth nas cynhelir ac nid oes angen data CYBLD. Nid oes gwahaniaeth a yw'r sefydliad wedi'i leoli mewn adeilad sy'n eiddo i ysgol na hyd yn oed os oes ysgol neu Awdurdod Lleol yn darparu rhywfaint o fewnbwn athrawon cymwysedig.
Os caiff y ddarpariaeth ei gweithredu (h.y. ei rheoli a'i staffio) gan ysgol, yna i bob pwrpas mae'n ddarpariaeth a gynhelir. Dylai'r sefydliadau hyn gadw cofnodion disgyblion a darparu manylion drwy'r datganiad CYBLD yn y ffordd arferol.

### *5.3. Pa ddata sydd ei angen ar gyfer disgyblion Meithrin?*

Mae'r gofynion data CYBLD yn llai niferus ar gyfer disgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, er enghraifft nid yw'n ofynnol darparu manylion am grŵp ethnig neu hunaniaeth genedlaethol. Mae'r canllawiau ar gyfer ysgolion Meithrin yn rhoi'r manylion llawn ac maent ar gael yn
http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy.

### *5.4. Sut y dylwn i gofnodi data ar gyfer disgyblion 3 oed a ariennir gan Grant y Blynyddoedd Cynnar yn fy Meithrinfa?*

Dylid cofnodi'r data ar gyfer pob disgybl meithrin yn yr un ffordd â disgyblion eraill ar system gwybodaeth reoli'r ysgol. Yn y gorffennol rydym wedi gofyn i ysgolion ddefnyddio'r statws cofrestru i geisio gwahaniaethu rhwng disgyblion a ariennir drwy grant setliad refeniw a'r grant blynyddoedd cynnar ond nid oes angen hyn mwyach.

***5.5. Gofynnir i mi nodi gwybodaeth am nifer y disgyblion a gafodd frecwast am ddim yn yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad, ond roedd yr ysgol ar gau am ran o'r wythnos honno. Pa wybodaeth y dylwn ei nodi?***

Os nad yw'r wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad yn wythnos ysgol lawn neu arferol dylai'r data gael ei gymryd o'r wythnos lawn arferol sydd agosaf at ddiwrnod y cyfrifiad.
I gael rhagor o wybodaeth am ddata ynghylch Brecwast am Ddim yn CYBLD gweler y canllawiau yn http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/breakfast/?lang=cy.

***5.6. Ar ddiwrnod y cyfrifiad bydd aelod o staff yn treulio peth amser mewn un dosbarth yn y bore ac yna amser gyda dosbarth arall yn y prynhawn. Sut y dylwn gofnodi'r aelod hwnnw o staff?***

Pan fydd athro/athrawes neu aelod o staff cymorth yn gweithio gydag un dosbarth yn y bore a chyda dosbarth arall yn y prynhawn bydd angen eu cofnodi yn y ddau ddosbarth yn CYBLD, hyd yn oed os bydd dosbarth y bore yn parhau fel dosbarth y prynhawn, neu os oedd dosbarth y prynhawn y symudodd yr aelod o staff iddo hefyd yn ddosbarth y bore.

***5.7. Mae gan fy ysgol dri dosbarth yn y bore sy'n parhau yn y prynhawn fel dau ddosbarth. Sut y dylwn ddisgrifio'r sefyllfa hon yn CYBLD?***

Y tri dosbarth a gynhaliwyd yn y bore yw'r rhai y mae angen eu cofnodi, hyd yn oed os yw rhai o'r disgyblion o un o ddosbarthiadau'r bore yn rhan-amser, cyn belled â bod tri o athrawon cymwys rhwng dosbarthiadau'r bore.

***5.8. Mae gan fy ysgol aelod o staff sy'n 'athro CACHE dan hyfforddiant' nad yw ar yr amserlen i weithio yn yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad. A ddylwn i gynnwys yr aelod yma o staff yng nghyfrifiad CYBLD?***

Na ddylech. Ni ddylid cyfrif yr aelod yma o staff yng nghyfrif CYBLD o athrawon CACHE dan hyfforddiant. Ni ddylid ond cyfrif yr athrawon CACHE hynny dan hyfforddiant sy'n gweithio ar ddiwrnod y cyfrifiad yn natganiad CYBLD er mwyn osgoi eu cyfrif ddwywaith.

***5.9. Mae aelod o staff cymorth yn yr ysgol dan gontract i weithio rhan o'r wythnos fel cynorthwyydd addysgu a'r rhan arall fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Sut y dylwn i gofnodi hyn yn CYBLD?***

Yn yr achos hwn dylai'r aelod o staff gael ei gofnodi yng nghategori'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn unig. Fodd bynnag dylid cofnodi staff cymorth yn y categori CALU dim ond os ydynt wedi cael statws CALU yn ffurfiol ar ôl iddynt gwblhau'n llwyddiannus y broses asesu a weinyddir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu'r TDA yn Lloegr, ac os ydynt yn cael eu defnyddio fel CALU am ran o'r wythnos neu am yr wythnos gyfan.

### *5.10. Oes angen i mi nodi data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion yn CYBLD eleni?*

Cafodd eitem data ar gamau dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer CYBLD 2009. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn nodiadau cwblhau CYBLD yn http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=cy.

### *5.11. Pam ddylwn i gofnodi a nodi'r data ynghylch Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer disgyblion?*

Bydd y data yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ysgolion wrth iddynt asesu cyrhaeddiad a datblygiad cynyddol disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt fel rhan o'u proses hunanasesu ac at ddibenion cymharu. Bydd y data hefyd yn creu llinell sylfaen ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALl) a Llywodraeth Cymru fel y gallant lunio dadansoddiadau ac adroddiadau a fydd yn ei gwneud yn haws i fonitro hynt y grŵp hwn o ddysgwyr. Bydd y data hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at fesur effaith Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru.

### *5.12. A ddylai plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gael eu hasesu ac a ddylid nodi eu caffaeliad o iaith yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*

Na. Noder **nad** bwriad yr eitem data hon yw nodi lefelau rhuglder Saesneg i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ond yn hytrach i nodi hyfedredd iaith Saesneg i ddysgwyr ieithoedd ychwanegol nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

### *5.13. Sut y byddaf yn gwybod y cam cywir o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol?*

Caiff manylion ynghylch camau disgyblion o ran Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu harolygu'n flynyddol gan Wasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig arbenigol neu gan wasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol o fewn ALlau. Dylai ysgolion ddefnyddio a chofnodi'r un data yn y maes Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer *disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol* ag sy'n cael ei ddarparu i'r gwasanaethau EMAS/Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel rhan o'r arolwg blynyddol.

### *5.14. Nid oes darpariaeth AAA ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen? Beth ddylid ei gofnodi ar gyfer y camau sy’n cael eu cymryd?*

Dylai disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gael eu hystyried fel disgyblion y Blynyddoedd Cynnar at ddiben yr AAA yn CYBLD 2015. Y categorïau dilys ar gyfer darpariaeth AAA yw:

S Datganiad
A Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar
P Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy
N Dim Anghenion Addysgol Arbennig.

### *5.15. CYBLD a’r Cyfnod Sylfaen.*

Defnyddir data o CYBLD i amcangyfrif y gost genedlaethol o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Cyfrifir dyraniadau i ALlau ar wahân trwy ddefnyddio’r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer ysgolion cynradd, fel cytunwyd gyda ADEW a’r WLGA.

Defnyddir yr eitemau data canlynol yn y cyfrifiadau. Ar lefel dosbarth unigol mae pob eitem o ddata. Ceir manylion pellach yn adran 6 o’r nodiadau cyfarwyddyd CYBLD.

**Math o ddosbarth, Grŵp blwyddyn a Chyfnod Allweddol**
Defnyddir cyfuniad y tair eitem yma i benderfynu'r gymhareb briodol ar gyfer y dosbarth.

**Nifer y disgyblion**
Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y disgyblion unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys disgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol, a hefyd disgyblion yn absennol ar ddydd y cyfrifiad ond yn arferol yn y dosbarth. Defnyddir nifer y disgyblion yn y dosbarth n benderfynu nifer y staff sydd angen yn y dosbarth i gyrraedd y gymhareb briodol.

**Athrawon a staff cymorth**
Fe ddylech nodi'r rhain fel nifer y staff unigol ac nid cyfwerth ag amser llawn. Fe ddylech gynnwys pob staff dim ots sut y cyllidwyd e.e. LMS, grant Cyfnod Sylfaen neu unrhyw ffynhonnell arall. Fe ddylech eithrio staff sy'n darparu cymorth addysg arbennig un i un llawn-amser neu staff sy'n cael eu cyflogi'n llawn fel rhan o gynllun RAISE.

**Fe ddylech gofnodi staff ym mhob dosbarth y maent yn dysgu neu yn cymorth ar ddiwrnod y Cyfrifiad e.e. ar gyfer dosbarthiadau meithrin gwahanol fore a phrynhawn gyda'r un aelodau staff, fe ddylech gofnodi'r staff yma dwywaith.** Oherwydd hyn, bydd Ymholiad 12189 yn cael ei adrodd yn hytrach na gwall.

| | |
|---|---|
| ***5.16*** | ***Mae gwall 12190 yn cael ei nodi ond mae nifer yr athrawon yn gyfartal â neu'n fwy na nifer yr athrawon a nodir mewn dosbarthiadau. Beth ddylwn i ei wneud?*** |

Rheol 12190, efallai y bydd cymharu nifer yr athrawon â'r dosbarthiadau a nodir yn achosi gwall ym meddalwedd MIS yr ysgol gan nad yw'r rheol yn cyfri'r categorïau newydd i athrawon sef AC (Pennaeth Dros Dro) ac AS (Penaethiaid Cynorthwyol), gan roi nifer anghywir o athrawon yn y neges gwall. Gall ysgolion anwybyddu'r maes hwn a lanlwytho'r ffeil i DEWi – ni fydd gwall 12190 ar DEWi.

# 6 Unedau Cyfeirio Disgyblion

***6.1 A oes angen i Unedau Cyfeirio Disgyblion anfon datganiad CYBLD?***

Na. Mae casgliad data CYBLD newydd i awdurdodau lleol am ddisgyblion sy’n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol nawr yn bodoli ar gyfer 2015. Bydd hyn yn cynnwys casglu 4gwybodaeth am ddisgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion fel na fydd bellach yn ofynnol i’r Unedau hyn gyflwyno eu datganiad CYBLD eu hunain. **Ni ddylid** cofnodi disgyblion nad ydynt yn mynychu ysgolion prif ffrwd yn y ffordd hon ar y datganaid CYBLD – mae’n **rhaid** iddynt gael eu cofnodi drwy’r broses Addysg Heblaw yn yr Ysgol. I gael rhagor o wybodaeth am hyn anfonwch e-bost at eotas@cymru.gsi.gov.uk.

# 7 Ysgolion Canol

***7.1 Mae fy ysgol yn ysgol canol – sut ddylai llenwi fy natganiad CYBLD?***

Dylai pob ysgol ganol llenwi datganiad ei huny yn yr un modd a phob ysgol arall Dylid anfon unrhyw gwestiynau cyffredinol at ims@cymru.gsi.gov.ukmailto:

# 8 Ble mae rhagor o gymorth ar gael?

Caiff y Cwestiynau ac Atebion eu diweddaru o bryd i’w gilydd wrth i faterion eraill godi sy'n berthnas
Byddwn yn rhoi'r diweddaraf ar ein gwefan ac yn e-bostio enwau cyswllt yn yr ALlau. Mae nodiadau
ein gwefan yn
http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelar
. Dilynwch y dolenni i ‘Casgliadau Data’ a ‘Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD

**CYBLD**
Os oes gennych ymholiadau ar CYBLD cysylltwch â ni yn PLASC@cymru.gsi.gov.uk
Am faterion BRYS cysylltwch â Gareth Hopkins ar 029 2082 6203.